Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gyfun Cwm Rhondda

**Heol Graigwen**
**Cymmer**
**Porth**
**Rhondda Cynon Taf**
**CF39 9HA**

**Dyddiad yr arolygiad: Chwefror 2024**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

**Cynhaliwyd yr arolygiad hwn fel rhan o drefniadau arolygu peilot. O ganlyniad, gallai'r adroddiad hwn fod â fformat ychydig yn wahanol i adroddiadau cyhoeddedig eraill ar gyfer darparwyr yn y sector.**

## Ynglŷn ag Ysgol Gyfun Cwm Rhondda

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Gyfun Cwm Rhondda |
| Awdurdod lleol | Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf |
| Iaith y darparwr | Cymraeg |
| Cymeriad crefyddol | |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 699 |
| Disgyblion o oedran ysgol statudol | 589 |
| Nifer yn y chweched dosbarth | 110 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector Uwchradd yw 21.2%) | 16.4% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector Uwchradd yw 14.8%) | 2.4% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 36% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 0.0% |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 01/05/2021 |
| Dyddiad yr arolygiad blaenorol gan Estyn (os yw'n berthnasol) | 18/03/2014 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 05/02/2024 |

Daw'r data hwn o ddata mwyaf diweddar y Cyfrifiad Ysgol Blynyddol ar Lefel Disgybl. Efallai y byddant ychydig yn wahanol i'r hyn a arsylwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae gwybodaeth ychwanegol ar gael o wefan Llywodraeth Cymru: Fy Ysgol Leol (gov.wales)

Mae'r term 'anghenion dysgu ychwanegol' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio disgyblion sydd ar gofrestr ADY yr ysgol

## Crynodeb

Mae Ysgol Gyfun Cwm Rhondda yn gymuned ofalgar sy’n rhoi pwyslais cryf ar gefnogi lles disgyblion. Mewn gwersi, mae’r rhan fwyaf o athrawon yn creu perthnasoedd gwaith cefnogol â’r disgyblion ac amgylchedd dysgu pwrpasol a chadarnhaol. O ganlyniad, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymddwyn yn dda mewn gwersi ac mae’r mwyafrif yn gwneud cynnydd cadarn yn eu gwybodaeth, eu dealltwriaeth a’u medrau. Yn gyffredinol, mae disgyblion yn gwneud cynnydd cadarn wrth ddatblygu eu medrau digidol ac mae llawer yn datblygu eu medrau llythrennedd yn llwyddiannus. Fodd bynnag, nid yw disgyblion yn gwneud digon o gynnydd dros amser yn eu medrau rhif. Mae gan yr ysgol brosesau addas i adnabod a diwallu’n fwriadus anghenion disgyblion ag anawsterau dysgu penodol.

Mae tîm bugeiliol yr ysgol yn gweithio’n ddiflino i ddarparu cefnogaeth a chynhaliaeth gynhwysfawr a gwerthfawr i ddisgyblion. Gweithredir trefniadau’r ysgol i gadw disgyblion yn ddiogel yn briodol. Mae’r ysgol yn darparu rhaglen addysg bersonol a chymdeithasol (ABCh) flaengar i helpu disgyblion ddatblygu parch at ei gilydd a’u cymuned. Mae Senedd yr ysgol a’i is-bwyllgorau yn rhoi cyfleoedd buddiol i ddisgyblion ddylanwadu ar waith a bywyd yr ysgol. Yn ogystal, mae llawer o gyfleoedd i ddisgyblion gymryd rhan mewn gweithgareddau allgyrsiol apelgar i ddiwallu eu diddordebau a chyfoethogi eu profiadau. Fodd bynnag, er i’r ysgol weithredu cynlluniau fel ’12 diwrnod Nadolig’ i annog disgyblion i fynychu’r ysgol, nid yw presenoldeb disgyblion, yn enwedig y rhai sy’n gymwys am brydau ysgol am ddim, yn ddigon uchel.

Mae llawer o athrawon yn rhoi cyfarwyddiadau clir ac yn esbonio cysyniadau’n effeithiol. Maent yn cynnig adborth llafar defnyddiol wrth symud o amgylch y dosbarth er mwyn cefnogi disgyblion i wneud cynnydd yn eu gwaith. Ym mwyafrif y gwersi, mae athrawon yn cynllunio cyfres o weithgareddau i adeiladu gwybodaeth a dealltwriaeth y disgyblion ac maent yn sicrhau cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ddatblygu eu gwybodaeth bynciol a’u medrau ehangach. Fodd bynnag, mewn lleiafrif o wersi, nid yw disgyblion bob amser yn gwneud cymaint o gynnydd ag y dylent. Yn yr achosion hyn, nid oes gan athrawon ddisgwyliadau digon uchel o’r hyn y gall y disgyblion ei gyflawni. Yn rhy aml, nid yw athrawon yn holi disgyblion yn ddigon treiddgar er mwyn eu hysgogi i feddwl yn ddwfn am eu dysgu.

Ers ei benodiad, mae’r pennaeth wedi gweithio’n ddiflino i sicrhau’r gorau o ran lles disgyblion a staff yr ysgol ynghyd â mynd i’r afael â materion pwysig sydd angen eu gwella. Fel rhan o’r gwaith hyn, ailsefydlodd ef nifer o systemau a threfniadau i sicrhau diogelwch y safle, rheoli’r gyllideb a dechrau datblygu rôl y llywodraethwyr fel cyfeillion beirniadol effeithiol. Mae arweinwyr yr ysgol wedi ymateb yn gryf i rai blaenoriaethau cenedlaethol fel datblygu Cwricwlwm i Gymru, y Gymraeg a lliniaru effaith tlodi ar gyflawniad disgyblion. Mae darpariaeth ‘Cwtsh y Cwm’ yn gryfder nodedig.

Mae gan yr ysgol galendr synhwyrol o weithgareddau hunanwerthuso addas ac, ar y cyfan, mae gan arweinwyr ddealltwriaeth briodol o brif gryfderau a meysydd i’w gwella yn yr ysgol. Fodd bynnag, nid yw arweinwyr bob amser yn blaenoriaethu’n ddigon strategol beth sydd angen ei wella. Golyga hyn nad yw rhai meysydd pwysig

megis agweddau ar addysgu medrau a phresenoldeb yn cael sylw digon penodol a miniog.

**Prif arfarniad y 6ed dosbarth**

Yn gyffredinol, mae disgyblion y chweched dosbarth yn gwneud cynnydd da. Maent yn dangos agweddau cadarnhaol iawn at eu gwaith, boed pan maent yn gweithio o dan arweiniad athro yn eu gwersi neu wrth gael cyfleoedd i weithio'n annibynnol. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn adalw gwybodaeth flaenorol yn fedrus ac yn defnyddio eu medrau'n effeithiol i ddatblygu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth yn ystod eu gwersi. Maent yn cyfrannu'n aeddfed i drafodaethau dosbarth, gan wrando ar ei gilydd, trafod yn ddeallus a phlethu dyfyniadau'n gelfydd fel tystiolaeth i gefnogi'u pwyntiau. Er enghraifft, wrth iddynt drafod perthynas cymeriad Elis â chymeriadau eraill yn y ffilm 'Hedd Wyn' yn eu gwersi Cymraeg.

## Argymhellion

Rydym wedi gwneud 3 argymhelliad i helpu'r ysgol i barhau i wella

A1 Gwella presenoldeb disgyblion

A2 Gwella'r ffordd mae arweinwyr, gan gynnwys y llywodraethwyr, yn gweithredu'n strategol a blaenoriaethu i sicrhau gwelliant

A3 Gwella'r addysgu trwy fynd i'r afael â'r diffygion a adnabuwyd yn yr adroddiad, gan gynnwys y ddarpariaeth ar gyfer medrau rhifedd disgyblion

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

## Prif ganfyddiadau

### Addysgu a dysgu

Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn dangos gofal amlwg o'r disgyblion ac yn llwyddo i greu perthnasoedd gwaith hynod gadarnhaol a chefnogol â'r disgyblion. Mae gan lawer ohonynt ddisgwyliadau uchel o ymddygiad ac ymroddiad disgyblion a cheir amgylchedd dysgu pwrpasol yn eu dosbarthiadau. Maent yn defnyddio canmoliaeth yn aml i annog y disgyblion ac yn mynd i'r afael yn effeithiol ag unrhyw fân darfu neu achosion lle mae disgyblion yn colli ffocws oddi ar y gwaith. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymddwyn yn dda mewn gwersi ac mae gan lawer agwedd gadarnhaol at eu dysgu.

Mae llawer o athrawon yn fodelau iaith da sydd yn gwneud defnydd priodol o derminoleg bynciol. Maent yn esbonio cysyniadau'n effeithiol ac yn rhoi cyfarwyddiadau clir sy'n galluogi disgyblion i wybod beth sy'n ddisgwyliedig ohonynt. Maent yn cylchu'r dosbarth yn gyson i fonitro cynnydd disgyblion wrth iddynt gwblhau eu gwaith ac yn cynnig adborth llafar defnyddiol, fel y bo angen. O ganlyniad, mae llawer o ddisgyblion yn datblygu dealltwriaeth glir o eirfa bynciol. Mae gan yr athrawon hyn adnabyddiaeth dda o'r disgyblion ac maent yn ymwybodol o bwy sydd angen cymorth ychwanegol pan fydd disgyblion yn cwblhau gwaith yn unigol.

Ym mwyafrif yr achosion, mae'r addysgu yn galluogi disgyblion, gan gynnwys disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY), i wneud cynnydd cadarn yn eu gwybodaeth bynciol, eu dealltwriaeth a'u medrau. Maent yn adalw eu gwybodaeth flaenorol yn addas ac yn ei defnyddio yn eu dysgu. Yn yr achosion hyn, mae athrawon yn defnyddio eu gwybodaeth am allu'r disgyblion a'u gwybodaeth bynciol i sicrhau bod disgyblion yn cael eu herio'n briodol. Maent yn cynllunio cyfres o weithgareddau sy'n adeiladu gwybodaeth a dealltwriaeth y disgyblion yn gynyddol. Mae ganddynt adnoddau defnyddiol i hwyluso'r dysgu a'r addysgu, gan gynnwys amrywiaeth o gyfryngau er mwyn ennyn diddordeb disgyblion. Mae'r athrawon hyn yn sicrhau bod cyfleoedd buddiol i ddisgyblion ddatblygu eu medrau yn ogystal â'u dealltwriaeth bynciol. Maent yn rhannu meini prawf llwyddiant defnyddiol ac yn modelu arferion effeithiol er mwyn caniatáu i'r disgyblion wybod sut i lwyddo. Lle bo'n addas, defnyddiant ddulliau priodol i asesu cynnydd pob disgybl, gan ddefnyddio'r wybodaeth hon i adnabod camsyniadau disgyblion a mynd i'r afael â nhw mewn modd amserol.

Mae llawer o athrawon yn holi disgyblion yn briodol i brofi eu gwybodaeth ac i sicrhau bod disgyblion yn talu sylw. Fodd bynnag, nid yw mwyafrif yr athrawon yn holi disgyblion yn ddigon treiddgar. Nid ydynt yn procio disgyblion i feddwl yn ddwfn nac yn sicrhau bod yr holl ddisgyblion yn ymateb yn ymestynnol ar lafar gan esbonio eu rhesymeg yn llawn. O ganlyniad, mae lleiafrif y disgyblion yn bodloni ar gynnig atebion byr i gwestiynau'u hathrawon.

Mewn lleiafrif o wersi, mae diffygion yn yr addysgu sydd yn golygu nad yw disgyblion yn gwneud cynnydd digon cyson, ac o dro i'w gilydd, yn colli diddordeb yn eu dysgu. Yn aml yn y gwersi hyn, nid oes gan athrawon ddisgwyliadau digon uchel o beth gall disgyblion ei gyflawni ac nid ydynt yn cynllunio gweithgareddau yn ddigon gofalus i herio disgyblion i'r eithaf. Mae diffygion hefyd yn cynnwys athrawon yn cyflwyno am ormod o amser ac felly'n cwtogi ar y cyfleoedd sydd gan ddisgyblion i weithio'n annibynnol, ac athrawon ddim yn dilyn camau polisi ymddygiad yr ysgol yn ddigon agos.

Yn y lleiafrif o achosion gorau, mae athrawon yn cynnig adborth sy'n nodi'n glir sut mae disgyblion yn medru gwneud cynnydd pellach ac yn darparu cyfleoedd buddiol i ddisgyblion weithredu ar yr adborth. Yn yr achosion hyn, mae mwyafrif y disgyblion yn mynd ati i weithredu'n bwrpasol ar gyngor eu hathrawon. Mewn llawer o achosion, mae athrawon yn sicrhau bod disgyblion yn cywiro eu camgymeriadau sillafu. Er hyn, mae gormod o anghysondeb yn ansawdd yr adborth mae athrawon yn ei gynnig i ddisgyblion ar sut i wella eu gwaith. Yn rhy aml, nid yw'r adborth a roddir i ddisgyblion yn ddigon penodol i alluogi iddynt wybod yn union beth sydd angen

iddynt ei wneud i wella, neu nid yw'r athrawon yn gwneud yn siŵr bod disgyblion yn gweithredu ar eu cyngor.

**Medrau Llythrennedd**

Mae arweinwyr wedi cynnal adolygiadau buddiol ar lythrennedd i adnabod ble mae disgyblion yn cael cyfleoedd i ddatblygu eu medrau mewn pynciau ar draws y cwricwlwm. Mae staff yn cydweithio'n frwdfrydig i gynllunio cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ymarfer eu medrau darllen ac ysgrifennu. O ganlyniad, mae toreth o gyfleoedd perthnasol i ddisgyblion ymarfer eu medrau llythrennedd. Serch hyn, nid yw adrannau'n cynllunio'n  ddigon gofalus i sicrhau bod disgyblion yn datblygu'u medrau yn gynyddol wrth iddynt symud trwy'r ysgol. Mae gan yr ysgol ymyraethau buddiol i gefnogi disgyblion sydd angen cymorth â'u medrau llythrennedd sylfaenol.

Mae llawer o ddisgyblion yn gwrando'n astud ar gyfarwyddiadau ac esboniadau eu hathrawon. Yn ogystal, maent yn gwrando'n briodol ar atebion eu cyfoedion gan adeiladu ar eu cyfraniadau'n synhwyrol mewn trafodaethau dosbarth. Llwyddant i esbonio eu syniadau yn glir, er enghraifft wrth drafod y gerdd 'What has happened to Lulu?' gan Charles Causley yn eu gwersi Saesneg. Gall llawer o ddisgyblion ddefnyddio terminoleg pwnc yn bwrpasol wrth ymateb i gwestiynau eu hathrawon. Mae ychydig o ddisgyblion yn cynnig atebion aeddfed a soffistigedig gan esbonio eu gwaith meddwl yn effeithiol. Fodd bynnag, mae lleiafrif o ddisgyblion yn cynnig atebion byr iawn i gwestiynau'r athro, ac yn aml, mae angen eu procio i ymhelaethu ar eu hatebion a chyfrannu i waith trafod mewn pâr neu grŵp. Yn gyffredinol, mae staff yr ysgol yn annog disgyblion i ymarfer eu medrau Cymraeg yn gyson. Er bod llawer o ddisgyblion yn dangos parch cyffredinol tuag at y Gymraeg, mae mwyafrif ohonynt yn rhy barod i droi i'r Saesneg wrth drafod â'u cyfoedion.

Mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd priodol i ddisgyblion ddatblygu eu medrau darllen mewn pynciau ar draws y cwricwlwm. Yn aml, mae'r cyfleoedd hyn yn canolbwyntio ar fedrau darllen a deall disgyblion. Gall llawer ohonynt leoli ffeithiau a gwybodaeth yn hyderus gan anodi testunau a thynnu sylw at eiriau a chanfyddiadau allweddol. Mae'r disgyblion hyn yn dangos dealltwriaeth gadarn o ystyr sylfaenol testunau. Llwydda'r mwyafrif i ddehongli ystyr mwy cymhleth o fewn testunau yn hyderus, gan gynnig tystiolaeth a dadleuon addas i gefnogi eu pwyntiau. Fodd bynnag, mae lleiafrif o ddisgyblion yn cael trafferth anodi testunau yn annibynnol ac mae ychydig ohonynt yn cael trafferth dewis a dethol yr hyn sy'n berthnasol wrth grynhoi gwybodaeth. Pan gânt y cyfle, mae disgyblion yn darllen ar goedd yn briodol.

Mae cyfleoedd gwerthfawr mewn gwersi ar draws y cwricwlwm i ddisgyblion ysgrifennu'n estynedig mewn ystod o ffurfiau ac ar gyfer amrywiaeth o gynulleidfaoedd. Llwydda lawer i ysgrifennu'n helaeth a threfnu eu gwaith mewn paragraffau synhwyrol i fynegi eu syniadau'n glir. Er enghraifft, wrth iddynt drafod 'A ddylai'r ysgol wahardd ffonau symudol yn gyfan gwbl?' yn eu gwersi Cymraeg. Mae'r disgyblion hyn yn defnyddio terminoleg pwnc a geirfa safonol yn gywir. Llwydda fwyafrif y disgyblion i ddefnyddio technegau llenyddol yn effeithiol wrth ysgrifennu'n greadigol. Er enghraifft, wrth iddynt ysgrifennu parodi o'r gerdd 'Cymru Yw...' i gynrychioli Cwm Rhondda' yn eu gwersi Cymraeg neu wrth ysgrifennu straeon gothig yn y gwersi Saesneg. Serch hyn, mae lleiafrif o ddisgyblion yn gwneud

camgymeriadau esgeulus wrth gyflwyno eu gwaith ysgrifenedig. Mae hyn yn cynnwys camgymeriadau sillafu a threiglo neu ddefnyddio cystrawen letchwith.

**Medrau Rhifedd**

Ar draws y cwricwlwm, mae ystod briodol o gyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ddatblygu eu medrau rhifedd. Maent wedi eu cynllunio'n ofalus fel eu bod yn cyfoethogi'r dysgu o fewn y pynciau yn ogystal â datblygu medrau rhifedd y disgyblion, er nad ydynt bob amser yn cynnig digon o her i'r holl ddisgyblion.

Mae gan tua hanner y disgyblion afael gadarn ar gysyniadau rhif. Maent yn defnyddio'r pedair rheol i gyfrifo'n rhugl, er enghraifft wrth enrhifo ciwb rhif sengl yn gyflym. Mae ganddynt ddealltwriaeth dda o ffracsiynau, canrannau a degolion. Er enghraifft, yn eu gwersi dyniaethau, maent yn defnyddio data cyfrifiad 2011 i gyfrifo pa ganran o'r boblogaeth sy'n dilyn crefyddau gwahanol, ac yna rhagfynegi beth oedd y sefyllfa yng nghyfrifiad 2021. Mae gan tua hanner y disgyblion ddealltwriaeth dda o siâp a mesur. Maent yn medru trawsnewid rhwng unedau metrig, cyfrifo arwynebedd arwyneb a chyfaint siapiau 3D, ac mewn gwyddoniaeth, maent yn defnyddio fformwlâu i gyfrifo ystod o fesurau gwahanol, er enghraifft foltedd, cerrynt a gwrthiant.

Mae gan y mwyafrif fedrau trin data priodol. Maent yn gallu cyfrifo cyfartaleddau a mesurau o amrywiad, a llunio graffiau'n addas. Mae tua hanner yn dadansoddi graffiau a thablau o ddata yn effeithiol er mwyn dod i gasgliadau synhwyrol. Mae gan ychydig o ddisgyblion fedrau rhifedd cryf. Maent yn gwneud cysylltiadau rhwng gwahanol gysyniadau mathemategol ac yn eu cymhwyso i amrywiaeth o sefyllfaoedd. Er enghraifft, maent yn defnyddio eu medrau algebra datblygedig i ddatrys problemau sy'n ymwneud â chyfrannedd yn hyderus. Fodd bynnag, oherwydd gormod o anghysondeb yn y modd mae cysyniadau mathemategol a rhifiadol yn cael eu haddysgu, nid yw disgyblion yn gyffredinol yn gwneud digon o gynnydd yn eu medrau rhifedd dros amser. Mae gan leiafrif o ddisgyblion ddiffyg rhugldder gyda gwaith rhif yn y pen. Mae'r ysgol wedi adnabod hyn, ac yn ddiweddar, maent wedi addasu'r ddarpariaeth yn addas ac mae hyn yn dechrau cael effaith ar fedrau rhif sylfaenol disgyblion Blwyddyn 7 ac 8.

## Medrau Cymhwysedd Digidol

**Cameo – darpariaeth datblygu medrau digidol disgyblion**

Mae arweinwyr wedi darparu hyfforddiant defnyddiol i staff er mwyn sicrhau eu bod yn gyfforddus wrth ddatblygu medrau digidol disgyblion o fewn eu meysydd. O fewn gwersi TGCh ac ar draws y cwricwlwm, mae cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ddatblygu eu medrau digidol, gan gynnwys yr uwch fedrau. Mae'r rhain yn cynnwys cyfleoedd cyfoethog i ddisgyblion ddatblygu eu dealltwriaeth o godio, defnyddio fformwlâu mewn taenlenni, llunio siart llif i ddosbarthu organebau mewn gwyddoniaeth, llunio animeiddiadau yn eu gwersi celf ac ystyried dibynadwyedd ffynonellau o'r we wrth wneud gwaith ymchwil. O ganlyniad, mae disgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu medrau digidol.

## Medrau ehangach

Mae cyfleoedd teilwng i ddisgyblion ddatblygu'u medrau ehangach mewn pynciau ar draws y cwricwlwm. Mae disgyblion yn manteisio'n frwdfrydig ar ystod o gyfleoedd i ddatblygu'u medrau creadigol drwy arbrofi ag ystod o syniadau a chyfryngau yn eu gwersi celf a llunio animeiddiad yn eu gwersi drama. Maent yn manteisio ar gyfleoedd pwrpasol ac effeithiol i ddatblygu eu medrau corfforol trwy weithgareddau amrywiol yn eu gwersi addysg gorfforol ac wrth drafod offer yn y gwersi technoleg. Er enghraifft, mae disgyblion yn datblygu eu medrau modur mân wrth greu brodwaith. O gael y cyfle, mae llawer o ddisgyblion yn arddangos medrau meddwl cadarn a hyblyg.

## Cwricwlwm

Mae gan yr ysgol weledigaeth glir ar gyfer y cwricwlwm sydd wedi ei seilio ar 'Dyheu. Dysg. Daioni' a chyflawni pedwar diben Cwricwlwm i Gymru. Fel rhan o'r gwaith i ddatblygu'r cwricwlwm, mae'r ysgol wedi ymgynghori â rhanddeiliaid a chydweithio'n fwriadus â'i hysgolion partner cynradd. Maent wedi cyd-gynllunio unedau o waith sydd yn sicrhau bod y cwricwlwm uwchradd yn ddatblygiad naturiol o ddysgu blaenorol disgyblion.

Cynigia'r ysgol gwricwlwm eang gyda chroestoriad priodol o bynciau ar draws yr holl ystod oedran. Mae hyn yn cynnwys gwersi yn y chwe maes dysgu a phrofiad ym mlynyddoedd 7,8 a 9, a chyrsiau academaidd a galwedigaethol yng Nghyfnod Allweddol 4 a'r chweched dosbarth. Mae arweinwyr yn sicrhau bod y cwricwlwm yn ymateb i anghenion, dymuniad a dyheadau disgyblion ar draws yr ystod oedran a gallu. Atgyfnerthir hyn drwy brosesau cynghori cynhwysfawr effeithiol sy'n sicrhau bod disgyblion o bob gallu yn dilyn cyrsiau priodol addas. Mae gan yr ysgol drefniadau cwricwlaidd amgen 'Step 4' a chynhaliaeth ychwanegol werthfawr ar gyfer codi safonau a chymhelliant y disgyblion mwyaf bregus yng Nghyfnod Allweddol 4.

Mewn partneriaeth â nifer o asiantaethau ac arbenigwyr allanol, mae'r ysgol yn cynnig profiadau helaeth gwerthfawr i ddisgyblion sy'n cysylltu'n uniongyrchol â'r cwricwlwm. Enghraifft effeithiol o hyn yw'r cyngor a'r profiadau gwerthfawr a gyflwynir i'r disgyblion ar addysg gyrfaoedd mewn partneriaeth â'r awdurdod lleol a Gyrfa

Cymru. Ceir cyfleoedd buddiol i ddisgyblion ddatblygu eu dealltwriaeth o amrywiaeth a dysgu am hanes a phrofiadau pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig a phobl LHDTC+ mewn sesiynau bugeiliol boreol a gwasanaethau, mewn gwersi ar draws y cwricwlwm ac yn y gwersi lles. Yn ogystal, ceir cyfleoedd arbennig i ddisgyblion gymryd rhan mewn gweithgareddau tu allan i'r ystafell ddosbarth megis darpariaeth eang o deithiau, clybiau amser cinio ac ar ôl ysgol, gweithgareddau chwaraeon, gweithgareddau allgyrsiol a phrofiadau cyfoethogi ehangach niferus. O ganlyniad i'r llu o gyfleoedd allgyrsiol hyn ac ehangder ac addasrwydd diwylliannol cwricwlwm yr ysgol, mae'r disgyblion yn cael eu hannog i ymfalchïo yn eu Cymreictod ac maent yn datblygu eu dealltwriaeth o ddiwylliant Cymreig yn effeithiol.

## Gofal, cymorth a lles

Mae Ysgol Gyfun Cwm Rhondda yn gymuned ofalgar a chroesawgar sy'n rhoi pwyslais cryf ar gefnogi lles disgyblion. Mae tîm bugeiliol angerddol yn cydweithio'n effeithiol iawn ac yn cefnogi'r diwylliant hwn trwy system fugeiliol werthfawr sy'n rhannu'r weledigaeth ysgol gyfan, sef 'Dyheu. Dysg. Daioni'. Mae ganddynt adnabyddiaeth arbennig o anghenion lles disgyblion ac maent yn defnyddio'r wybodaeth hon i ddarparu cefnogaeth a chynhaliaeth werthfawr iddynt. Mae hyn yn cynnwys cefnogaeth gan y swyddog ymgysylltu â theuluoedd ac mewn ardaloedd lles megis yr 'Hafan Hafal'. Mae'r disgyblion yn gwerthfawrogi'r ddarpariaeth ac mae'n cyfrannu'n bwrpasol i'w cefnogi i ymgysylltu â'u haddysg. O ganlyniad, mae ymddygiad y rhan fwyaf o ddisgyblion yn dda mewn gwersi ac o gwmpas yr ysgol. Er i'r ysgol geisio gwella pryd a gwedd yr adeilad a'r ardaloedd tu allan, mae cyflwr rhannau o'r adeilad yn wael.

Mae'r ysgol yn darparu rhaglen addysg bersonol a chymdeithasol (ABCh) werthfawr sy'n ymateb yn amserol i farn disgyblion, dadansoddiadau holiaduron a materion cyfoes lleol ac ehangach. Mae'r rhaglen yn gynhwysfawr ac yn hyrwyddo diwylliant lle mae disgyblion yn cael eu hannog i ddatblygu'n ddinasyddion gwybodus ac egwyddorol sy'n parchu ei gilydd a'u cymuned. Ynghyd â'r sesiynau boreol, mae'r rhaglen yn cyfoethogi datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion.

**Cameo: Gwersi lles**

Mae'r ddarpariaeth fugeiliol gynhwysfawr yn cynnwys gwersi addysg bersonol a chymdeithasol gwerthfawr i'r holl ddisgyblion. Darperir hyfforddiant penodol i helpu athrawon i addysgu'r gwersi lles hyn. Mae'r ddarpariaeth yn cael ei dylunio i ymateb i ganfyddiadau holiaduron lles, gweithgareddau holi barn y disgyblion ac i faterion cyfoes. Er enghraifft, gwersi i drafod defnyddio ieithwedd briodol wrth drafod merched a hil. Mae'r disgyblion yn frwdfrydig iawn wrth drafod eu profiadau yn y gwersi lles ac yn mwynhau trafod materion pwysig o fewn amgylchedd ddiogel y gwersi, er enghraifft iechyd meddwl, diogelwch ar y we, a chynnal perthnasoedd iach. Yn y gwersi, mae'r disgyblion yn cyfrannu'n fyrlymus ac yn aeddfed gan ymateb yn sensitif i gyfraniadau ei gilydd.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn teimlo'n ddiogel ac yn rhydd rhag bwlio ac aflonyddu. Mae gan yr ysgol ddiwylliant cryf o ddiogelu ac mae trefniadau priodol ar waith i gadw disgyblion yn ddiogel. Mae arweinwyr yn sicrhau bod staff yn cael yr hyfforddiant statudol priodol ar gyfer diogelu ac mae staff yn glir ynghylch eu cyfrifoldebau o ran cadw disgyblion yn ddiogel.

Rhwng blynyddoedd academaidd 2018-19 a 2022-2023, gostyngodd cyfradd presenoldeb yr ysgol lawer mwy na'r hyn a welwyd yn genedlaethol. Y llynedd, roedd yn sylweddol is na'r hyn a welwyd mewn ysgolion tebyg. Mae presenoldeb disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol. Mae'r gyfradd uchel o absenoldebau parhaus yn bryder.

Mae'r ysgol yn cymryd camau buddiol i wella presenoldeb disgyblion. Mae hyn yn cynnwys penodi staff i weithio gyda disgyblion sydd â phresenoldeb isel a datblygu fforwm sy'n cwrdd yn gyson i fonitro presenoldeb. Mae'r ysgol yn dadansoddi data presenoldeb yn briodol er mwyn adnabod rhai tueddiadau. Serch hyn, nid yw'r trefniadau'n ddigon grymus i adnabod tueddiadau mewn grwpiau gwahanol nac i adnabod y strategaethau sy'n cael yr effaith fwyaf ar bresenoldeb.

Mae arweinwyr wedi dechrau gwella ymwybyddiaeth disgyblion a theuluoedd o bwysigrwydd presenoldeb, ac maent yn hyrwyddo presenoldeb da trwy systemau gwobrwyo apelgar.

**Cameo: Gwella presenoldeb trwy gynllun '12 diwrnod Nadolig'**

Un strategaeth i wella presenoldeb yw'r cynllun '12 diwrnod Nadolig'. Mae'r ysgol wedi adnabod cyfnod cyn diwedd tymor yr hydref pryd mae presenoldeb disgyblion yn gostwng, ac o ganlyniad wedi cynllunio cyfres o weithgareddau ac ymweliadau a chynnig gwobrau penodol ar ddiwedd y tymor. Trwy gyrchu barn disgyblion i adnabod eu diddordebau a'u gofynion, mae'r ysgol wedi teilwra darpariaeth i'w hannog i ddod i'r ysgol. Mae'r disgyblion yn siarad yn ganmoliaethus am y '12 diwrnod Nadolig'. Roedd cynnydd o 10 pwynt canran mewn presenoldeb o gymharu â'r un cyfnod y llynedd.

Mae gan y tîm ADY adnabyddiaeth dda o anghenion disgyblion ag anawsterau dysgu penodol. Mae gan yr ysgol weithdrefnau effeithiol i ddod i adnabod anghenion disgyblion yn gynnar trwy'r broses pontio gryf. Mae'r grŵp pontio estynedig yn sicrhau bod disgyblion ag anghenion yn cael cyfleoedd ychwanegol i ymweld yn gyson â'r ysgol.

Mae gan yr ysgol brosesau priodol wrth weithredu'r Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru). Mae'r cynlluniau dysgu unigol yn darparu gwybodaeth fanwl am anghenion disgyblion ynghyd â chynnwys targedau penodol. Mae'r tîm ADY yn meddu ar ddealltwriaeth dda o anghenion disgyblion, ac maent yn cydlynu'r ymyraethau sydd ar gael i ddisgyblion ag ADY yn bwrpasol. Maent yn monitro cynnydd y disgyblion o'u mannau cychwyn yn rheolaidd. Mae proffiliau un dudalen disgyblion, sef 'Proffil amdanaf i', yn cynnwys gwybodaeth ddefnyddiol mewn lle canolog i staff er mwyn cefnogi'r disgyblion. Trefnir hyfforddiant pwrpasol i staff yr ysgol ar ddulliau o gefnogi disgyblion sydd angen cymorth ychwanegol o ran eu strategaethau â disgyblion ag ADY. Mae hyn oll yn cyfoethogi dealltwriaeth y staff o anghenion disgyblion unigol ac yn sicrhau bod y rhain yn cael eu diwallu'n llwyddiannus.

Mae cyfraniad disgyblion y chweched dosbarth i fywyd yr ysgol yn gadarn ac mae'r ysgol yn rhoi cyfleoedd gwerthfawr iddynt ddatblygu medrau arwain. Maent yn cynnal gweithgareddau, pwyllgorau a chlybiau sy'n cryfhau eu hymgysylltiad â gweddill y disgyblion. Maent hefyd yn cyflwyno sesiynau 'Urddas Mislif' i ddisgyblion iau yr ysgol ac i'r ysgolion cynradd. Maent yn angerddol am ddatblygu'r Gymraeg ac yn darparu gweithgareddau hwyliog i ddisgyblion yn y clwb Cymraeg yn ystod amser cinio. Maent hefyd yn gwirfoddoli mewn ysgol gynradd gyfagos i ddarparu sesiynau Cymraeg i ddisgyblion yn wythnosol. Trwy gydweithio â'r Urdd, mae'r disgyblion wedi cael hyfforddiant i'w galluogi i arwain gweithgareddau'r clwb 'Pawb', sef clwb LHDTC+ yr ysgol. Mae disgyblion Blwyddyn 10 yn arwain ymgyrch i godi parch at ferched gan gyflwyno'r ymgyrch mewn gwersi lles i ddisgyblion iau yr ysgol.

Mae gan yr ysgol Senedd sy'n cynnwys cynrychiolwyr o bob dosbarth. Mae gan y Senedd is-bwyllgorau, er enghraifft 'Ein Cymuned/Cymreictod', 'Ein Hiechyd a Lles', 'Ein Hamgylchedd' ac 'Ein Dysgu' o dan arweiniad disgyblion y chweched dosbarth. Mae'r pwyllgorau hyn wedi cael effaith gadarnhaol ar waith yr ysgol, er enghraifft, trwy enwi adeiladau'r ysgol, gosod meinciau a byrddau picnic yn yr ardaloedd allanol a ffynnon ddŵr yn y ffreutur. Yn ogystal, maent wedi gwella sefyllfa sbwriel yr ysgol trwy gynyddu nifer y biniau sydd ar y safle. Er i'r datblygiadau hyn ddeillio'n

uniongyrchol o waith y Senedd, nid oes trefniadau ffurfiol a chyson ar gyfer casglu barn holl ddisgyblion yr ysgol. Nid yw disgyblion bob amser yn llwyr ymwybodol o waith y Senedd.

Mae'r ysgol yn darparu cyngor ac arweiniad cadarn i ddisgyblion wrth iddynt ddewis eu pynciau TGAU a Safon Uwch. Mae'r disgyblion yn hapus â'r gefnogaeth a'r cyngor a ddarperir, sy'n cynnwys cyfweliadau un-i-un ag arweinwyr, cyfweliadau â'r swyddog gyrfaoedd a thrwy drafodaethau mewn nosweithiau opsiynau.

Mae llawer o ddisgyblion yn cymryd rhan mewn ystod eang o weithgareddau allgyrsiol sy'n darparu ar gyfer diddordebau diwylliannol, chwaraeon ac academaidd. Mae'r ddarpariaeth yn cynnwys sioeau cerdd blynyddol, eisteddfod, nifer o glybiau chwaraeon a theithiau lleol a thramor.

## Arwain a gwella

Mae'r pennaeth yn angerddol dros roi'r profiadau gorau i'r disgyblion a hybu ynddynt gariad at yr iaith Gymraeg a balchder yn eu hunain, eu hysgol a'u hardal. Mae lles disgyblion a staff yn greiddiol i'w weledigaeth a choleddir y weledigaeth hon gan staff a llywodraethwyr dan faner 'un tîm, un teulu'.

Ers ei benodiad, mae'r pennaeth a'r tîm arwain wedi gweithio'n effeithiol i ailsefydlu systemau a chyfundrefnau, ailstrwythuro trefniadau staffio, mynd i'r afael â'r diffyg yn y gyllideb a sicrhau bod y safle'n ddiogel. Mae'r gefnogaeth i les staff yn sgil heriau sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf yn gryfder nodedig. Mae'r pennaeth a'r uwch dîm arwain wedi llwyddo i gynnal morâl staff a'u cefnogi'n effeithiol trwy gyfnod tymhestlog.

Mae'r uwch dîm arwain yn gefnogol iawn i weledigaeth y pennaeth. Mae llawer o gyfrifoldebau'r uwch dîm arwain wedi eu dyrannu'n synhwyrol, ar y cyfan, ond mae eu llwyth addysgu yn drwm ac nid yw dosraniad ychydig o gyfrifoldebau'n rhesymegol.

Mae mwyafrif yr arweinwyr canol cwricwlaidd yn adnabod eu meysydd cyfrifoldeb yn dda ac yn gallu adnabod prif gryfderau'r adran a'r  meysydd i'w gwella. Mae nifer ohonynt wedi cael budd o gyfleoedd defnyddiol i ddatblygu eu medrau arwain trwy gyd-arsylwi gwersi gydag aelodau o'r uwch dîm arwain. Fodd bynnag, mae effeithiolrwydd arweinwyr canol wrth iddynt werthuso effaith y ddarpariaeth ar safonau a chynllunio ar gyfer gwella yn amrywio.

Mae trefn rheolaeth llinell glir ac mae cyfarfodydd rheolaeth llinell yn darparu cyfleoedd buddiol i drafod materion addas sy'n cynnwys deilliannau disgyblion a chanfyddiadau o weithgareddau sicrhau ansawdd. Mae'r cyfarfodydd hyn yn darparu cefnogaeth werthfawr i arweinwyr canol. Mae cyfarfodydd adrannol hefyd yn darparu cyfleoedd pwrpasol i adrannau gyd-drafod ond mae gormod o amrywiaeth yn ansawdd y cyfarfodydd hyn ac i ba raddau maent yn arwain at weithredu effeithiol.

Mae arweinwyr yn ymateb yn gadarn i nifer o flaenoriaethau cenedlaethol megis lliniaru effaith tlodi, datblygu Cwricwlwm i Gymru a hybu'r Gymraeg, ond yn llai felly o ran presenoldeb. Mae'r ysgol yn rhoi pwyslais cadarn ar leihau effaith tlodi trwy

ddarparu profiadau er ehangu gorwelion disgyblion a thrwy gefnogaeth ar gyfer offer a thripiau. Mae'r ddarpariaeth yn Cwtsh y Cwm yn gryfder penodol.

**Cameo: Cwtsh y Cwm**

Er mwyn lliniaru effaith tlodi, mae'r ysgol wedi creu 'Cwtsh y Cwm', sef canolfan sy'n darparu bwyd, gwisg ysgol a nwyddau defnyddiol arall i ddisgyblion a'r gymuned leol. Mae'r ganolfan yn derbyn nifer o roddion oddi wrth randdeiliaid yr ysgol er mwyn cefnogi teuluoedd. Mae croeso i ddisgyblion gael anrhegion pen-blwydd ar gyfer aelodau'r teulu, cotiau neu esgidiau, yn ôl y gofyn. Mae croeso i rieni drefnu amser cyfleus i alw heibio'r ganolfan er mwyn derbyn nwyddau defnyddiol megis llenni a theganau ar gyfer plant bach.

Mae'r ysgol wedi datblygu partneriaethau cynhyrchiol â'r ysgolion cynradd partner, ysgolion lleol ac ysgolion o fewn y sector addysg Gymraeg. Maent hefyd wedi bod yn greadigol o ran canfod datrysiadau i heriau staffio sylweddol, gan gynnwys annog disgyblion i ystyried addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg fel llwybr gyrfaol.

Mae gan yr ysgol galendr o weithgareddau hunanwerthuso addas sy'n cynnwys teithiau dysgu, craffu ar waith, dadansoddi data ac, i raddau llai, gwrando ar farn disgyblion. Mae arweinwyr hefyd yn cynnal adolygiadau defnyddiol o themâu neu adrannau penodol. Mae'r holl weithgareddau hyn yn eu helpu i ddechrau adeiladu darlun o waith yr ysgol. Fodd bynnag, nid yw arweinwyr bob amser yn gwerthuso effaith eu gwaith nac yn triongli canfyddiadau gweithgareddau hunanwerthuso yn ddigon da ac felly nid ydynt yn adnabod yr union agweddau sydd angen mynd i'r afael â nhw.

Ar y cyfan, mae gan arweinwyr ddealltwriaeth addas o'r prif gryfderau a'r meysydd i'w gwella yn yr ysgol ond nid ydynt yn blaenoriaethu'n ddigon strategol beth sydd angen ei wella. Mae gormod o flaenoriaethau. O'r herwydd, nid yw rhai agweddau pwysig, megis presenoldeb ac agweddau penodol o addysgu a medrau, yn cael sylw digon miniog ac nid yw'r gweithredu er gwella yn ddigon effeithiol o ganlyniad. Yn ogystal, nid yw holl systemau'r ysgol yn cyd-dynnu i'r un cyfeiriad er mwyn sicrhau gwelliant. Er enghraifft, nid yw'r drefn rheoli perfformiad yn cefnogi gwaith gwella'r ysgol yn ddigon effeithiol. Nid oes canllawiau clir o ran targedau, ac o'r herwydd, mae amrywiaeth eang ohonynt. Nid yw'r targedau bob amser yn cefnogi blaenoriaethau gwella'r ysgol yn ddigon da ac yn aml nid ydynt yn canolbwyntio'n ddigonol ar effaith gwaith staff ar ddisgyblion.

Mae'r llywodraethwyr yn gefnogol iawn o'r ysgol ac addysg Gymraeg yn yr ardal. Yn gyffredinol, maent yn darparu lefel addas o her ar rai materion pwysig fel y cwricwlwm a'r gyllideb ond maent wedi adnabod yr angen i gryfhau eu gwaith a darparu mwy o her. Mae'r llywodraethwyr yn deall eu cyfrifoldebau o ran hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach ac wedi cydweithio â'r Senedd ysgol er mwyn cyflwyno ffynhonnau dŵr. Serch hyn, nid yw gwaith y llywodraethwyr bob amser yn canolbwyntio'n ddigonol ar brif faterion pwysig yr ysgol, fel presenoldeb. Yn ogystal, nid yw'r wybodaeth a ddarperir iddynt bob amser yn ddigon clir a hylaw nac yn canolbwyntio ddigon ar agweddau pwysicaf gwaith yr ysgol. Nid oes disgybl lywodraethwyr ar hyn o bryd.

Mae'r pennaeth, y rheolwr busnes a'r llywodraethwyr yn monitro gwariant yn ofalus. Maent wedi llwyddo i adfer sefyllfa o ddiffyg ariannol sylweddol. Mae'r grant amddifadedd yn cael ei wario'n addas, yn bennaf ar staffio, ac mae'r ysgol yn cydnabod yr angen i wella'r gwerthusiad o'r gwariant hwn.

Mae cyfathrebu â rhieni yn addas. Mae'r ysgol yn casglu barn rhieni drwy holiaduron ac yna'n gwneud newidiadau o ganlyniad i hyn, megis diwygio'r adroddiadau a gwahardd ffonau symudol yn ystod oriau ysgol.

Mae ystod o gyfleoedd dysgu proffesiynol addas i staff dysgu a staff ategol. Mae athrawon yn manteisio ar gyfleoedd buddiol i ddatblygu medrau dysgu ac arwain. Er enghraifft, mae arweinwyr yn cael cyfleoedd i fynychu cyrsiau arwain allanol a rhwydweithio o fewn y sector Gymraeg a'r sir. Mae staff addysgu yn cael cyfleoedd gwerthfawr i arsylwi gwersi o fewn eu hadrannau er mwyn gwella eu harfer. Er hynny, nid yw arweinwyr yn gwerthuso effaith y rhaglen dysgu proffesiynol.

## Cydymffurfiaeth statudol

### Trefniadau diogelu

Nid yw trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn peri pryder.

### Bwyta ac yfed yn iach

Mae gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.

### Cyllid ysgol

Mae arweinwyr a llywodraethwyr yn rheoli cyllid yr ysgol yn briodol, gan gynnwys defnyddio'r grant datblygu disgyblion.

### Materion iechyd a diogelwch (diogelwch y safle)

Dim pryderon.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni/gofalwyr a'r holiadur i ddisgyblion, ac yn ystyried barn athrawon, staff a'r corff llywodraethol / aelodau'r pwyllgor rheoli trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni/gofalwyr i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu a'r ganolfan adnoddau arbenigol (lle y bo'n briodol), ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo'n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion (lle y bo'n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Atodiad 1: Niferoedd – symiau a chyfrannau

Mae'r adroddiad yn cyfeirio at wahanol symiau a chyfrannau, e.e. *'y rhan fwyaf o ddisgyblion…'* neu *'ychydig iawn o ddisgyblion…'*. Rydym yn defnyddio'r termau hyn i ddisgrifio symiau a chyfrannau fel yr amlinellir yn y tabl isod:

| | |
|---|---|
| bron pob un = | gydag ychydig iawn o eithriadau |
| y rhan fwyaf = | 90% neu fwy |
| llawer = | 70% neu fwy |
| mwyafrif = | dros 60% |
| hanner = | 50% |
| tua hanner = | yn agos at 50% |
| lleiafrif = | islaw 40% |
| ychydig = | islaw 20% |
| ychydig iawn = | llai na 10% |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW  neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Cymraeg i Saesneg).**

© Hawlfraint y Goron 2024:  Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y **caiff** ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.  Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi:  10/04/2024